



## Cais am Dystysgrif Awdurdodi Cludwyr Anifeiliaid Math 2 y Deyrnas Unedig (yn ddilys ar gyfer pob taith yn cynnwys teithiau sy'n para am dros 8 awr) i gludo ar y ffordd

Mae'r manylion hyn hefyd ar gael yn Saesneg.

**Darllenwch bob adran yn ofalus ynghyd â'r canllawiau ar wahân ar Dystysgrifau Awdurdodi Cludwyr cyn cwblhau'r ffurflen hon.**

1. Dylid cwblhau'r cais hwn mewn PRIF LYTHRENNAU gan ddefnyddio inc du.
2. Ni phrosesir eich cais oni chwblheir yr adrannau â seren (\*).
3. Dim ond un cais y gellir ei wneud fesul cludwr. Gall unrhyw fod dynol neu berson cyfreithiol (e.e. cwmni/partneriaeth/cymdeithas anghorfforedig) wneud cais am Dystysgrif Awdurdodi ond byddant yn cael eu cyfyngu i un Dystysgrif Awdurdodi fesul unigolyn neu fusnes.
4. Gallwch gyflwyno eich ffurflen gais drwy'r post, mewn e-bost neu mewn ffacs, ond nodwch fod rhaid llofnodi ffurflenni cais sy'n cael eu hanfon mewn e-bost yn Rhan 3.
5. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Lles Wrth Gludo APHA ar: 03000 200 301.

**Nodwch na fyddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn y ffurflen hon.**

### Rhan 1 – Manylion yr ymgeisydd

#### Cwestiwn 1 – Mae'r adran hon yn orfodol

Rhowch enw'r sawl y dylid rhoi'r Dystysgrif Awdurdodi iddo.

Enw'r cludwr  
(gweler y diffiniad  
isod)\*

Statws cyfreithiol y  
cludwr\*

Unigolyn/Unig fasnachwr

Cwmni/Partneriaeth/Cymdeithas anghorfforedig

Diffinnir cludwr yn Rheoliad 1/2005 y Cyngor fel 'unrhyw fod dynol neu berson cyfreithiol sy'n cludo anifeiliaid ar ei liwt ei hun neu ar ran trydydd parti'. Gofynnir i chi roi tic yn y blwch priodol uchod i nodi'r amgylchedd yr ydych yn gwneud cais amdano.

Os ydych yn ticio 'Unigolyn/Unig fasnachwr', rhowch eich enw a chyfeiriad chi eich hun yn Rhan 1.

Os ydych yn ticio 'Cwmni/Partneriaeth/Cymdeithas anghorfforedig' a'ch bod yn gweithredu fel cynrychiolydd awdurdodedig cwmni/partneriaeth/cymdeithas anghorfforedig, rhestrwch y sefydliad fel y cludwr, a rhowch fanylion am gyfeiriad cofrestredig y sefydliad yn Rhan 1.

#### Cwestiwn 2 – Mae'r adran hon yn orfodol

Rhowch eich cyfeiriad gohebu a'ch manylion cyswllt llawn.

Enw cyswllt\*

Cyfeiriad\*

Cod Post:

Rhif ffôn\*

Rhif ffacs

Cyfeiriad e-bost

**Cwestiwn 3 – Dim ond os yw'r adran hon yn berthnasol y dylid ei chwblhau**

Rhowch gyfeiriad a manylion cyswllt eich prif gyfeiriad gweithredu, os yw'n wahanol i'ch cyfeiriad gohebu.

Enw cyswllt

Prif gyfeiriad gweithredu (os yw'n wahanol i gwestiwn 2 uchod)

Cod Post:

Rhif ffôn

Rhif ffacs

Cyfeiriad e-bost

**Cwestiwn 4 – Mae'r adran hon yn orfodol**

Bwriedir y ffurflen gais hon ar gyfer ymgeiswyr sy'n dymuno cludo **ar y ffordd** yn unig. Gellir awdurdodi ymgeiswyr ar gyfer mwy nag un dull cludo os ydynt yn dymuno. Dylent ddefnyddio ffurflen gais WIT38 i wneud hynny.

Bydd y Dystysgrif Awdurdodi hon yn gyfyngedig i'r dulliau a nodir isod:

Dull cludo\*

ffordd

**Cwestiwn 5 – Mae'r adran hon yn orfodol**

Nodwch y rhywogaethau o anifeiliaid yr hoffech gael eich awdurdodi i'w cludo.

Gellir awdurdodi ymgeiswyr ar gyfer mwy nag un rhywogaeth os ydynt yn dymuno.

Rhywogaeth\*    Gwartheg                       Defaid                       Geifr                       Moch

Dofednod                       Ceffylau/Merlod cofrestredig                       Ceffylau/Merlod anghofrestredig

Arall     Os 'ARALL', rhowch fanylion

**Rhan 2**

**Cwestiwn 6 – Mae'r adran hon yn orfodol**

Mae Erthygl 11 o Reoliad y Cyngor (CE) Rhif 1/2005 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu Tystysgrifau Cymhwysedd dilys pan fyddant yn gwneud cais am Dystysgrif Awdurdodi Cludwyr taith hir.

- Rhaid i chi ddarparu prawf bod pob gyrrwr a chynorthwydd sy'n gyfrifol am gludo **ceffylau, defaid, geifr, gwartheg, moch a dofednod** ar deithiau sy'n para **dros 8 awr** wedi cael Tystysgrif Cymhwysedd **taith hir** benodol ar gyfer pob math o anifail a fydd yn cael eu cludo.
- Does dim angen i yrwyr a chynorthwywyr sy'n gyfrifol am gludo **rhywogaethau eraill** feddu ar Dystysgrif Cymhwysedd.

**RHAID ATODI COPIAU O DYSTYSGRIFAU CYMHWYSEDD I'CH CAIS.**

Cwblhewch y tabl isod, os yw'n berthnasol. Os oes angen mwy o le, atodwch dudalen ar wahân.\*

Rhif y Dystysgrif Cymhwysedd	Rhywogaethau i'w cludo	Enw

### Cwestiwn 7 – Mae'r adran hon yn orfodol

Nodwch i ble yr ydych yn bwriadu teithio:

(a) Lleoliad\*: Prydain Fawr yn unig

Prydain Fawr,  
Gogledd Iwerddon  
a'r Undeb  
Ewropeaidd

Nodwch hyd y teithiau yr ydych yn bwriadu eu gwneud:

(b) Hyd\*: Dros 8 awr ond llai na 12 awr

Dros 12 awr

### Cwestiwn 8 – Mae'r adran hon yn orfodol

Mae Erthygl 11 o Reoliad y Cyngor (CE) Rhif 1/2005 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu dogfennau Cymeradwyo Cerbydau dilys pan fyddant yn gwneud cais am Dystysgrif Awdurdodi Cludwyr taith hir.

- Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth bod pob cerbyd ffordd a ddefnyddir i gludo **ceffylau, defaid, geifr, gwartheg a moch** ar deithiau sy'n para **dros 8 awr** wedi cael ei archwilio a'i gymeradwyo ar gyfer pob math o anifail a fydd yn cael eu cludo
- Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth bod pob cerbyd ffordd a ddefnyddir i gludo mathau **eraill** o anifeiliaid ar deithiau sy'n para **dros 8 awr i mewn i'r UE** wedi cael ei archwilio a'i gymeradwyo
- Rhaid i chi ddarparu prawf bod pob cerbyd ffordd a ddefnyddir i gludo mathau **eraill** o anifeiliaid ar deithiau sy'n para **dros 12 awr yn y DU** wedi cael ei archwilio a'i gymeradwyo

### RHAID ATODI COPIAU O DYSTYSGRIFAU CYMERADWYO CERBYDAU I'CH CAIS

Os nad ydych yn berchen ar y cerbyd a fydd yn cael ei ddefnyddio gennych chi i gludo'r anifeiliaid, sicrhewch eich bod yn cael copi o Dystysgrif Cymeradwyo'r cerbyd a fydd yn cael ei logi i gludo'r anifeiliaid.

Cwblhewch y tabl isod, os yw'n berthnasol. Os oes angen mwy o le, atodwch dudalen ar wahân.\*

Nifer y cerbydau yn eich fflyd\*:

Rhif y Dystysgrif Cymeradwyo Cerbydau	Rhywogaethau i'w cludo	Rhif cofrestru'r cerbyd

### Cwestiwn 9 – Mae'r adran hon yn orfodol

I gefnogi eich cais, mae'n rhaid i chi gyflwyno Cynllun Wrth Gefn (WIT27) sy'n manylu'r mesurau yr ydych yn bwriadu eu cymryd mewn argyfwng, fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 11(1)(b)(iv) o Reoliad y Cyngor (CE) Rhif 1/2005.

Ticiwch i gadarnhau bod eich Cynllun Wrth Gefn wedi'i atodi i'ch cais.\* Ydy

## Cwestiwn 10 – Mae'r adran hon yn orfodol

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr roi manylion am sut y maent yn olrhain ac yn cofnodi teithiau eu cerbydau a sut y maent yn cysylltu â'u gyrrwyr. Eglurwch sut y byddwch yn bodloni'r gofyniad hwn yn y blwch isod\*;

Mae gofynion pellach ar olrhain cerbydau yn gymwys i gludwyr ceffylau a da byw nas cofrestrwyd sy'n teithio am fwy na 12 awr neu y tu allan i'r DU. Mae'n ofynnol i gludwyr ddangos eu bod yn defnyddio system olrhain â lloeren sy'n cofnodi manylion eu teithiau fel y'u nodwyd yn y cofnodlyfrau teithiau, yn ogystal ag agor a chau'r fflapiau llwytho. Rhaid bod gan ymgeiswyr gyfleuster olrhain â lloeren yn eu cerbydau a gofynnir i ymgeiswyr gadarnhau eu bod yn bodloni'r gofyniad hwn trwy ddatganiad F. Mae canllawiau cyffredinol Defra ar y Rheoliad yn cynnwys canllawiau pellach ar yr agwedd hon.

## Troseddau a Chollfarnau

### Cwestiwn 11 – Mae'r adran hon yn orfodol

Yn gyffredinol, wrth ystyried ceisiadau am Dystysgrif Awdurdodi bydd unrhyw gofnod o Rybudd Syml y Swyddfa Gartref, collfarn neu orchymyn gwahardd/anghymwyso cyfredol o dan y ddeddfwriaeth ganlynol yn sail dros wrthod cais, neu osod amod ar y Dystysgrif Awdurdodi:

- Erthygl 4 neu 6 o Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) 1997;
- Erthygl 4 neu 6(c) o Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Lloegr) 2006; Erthygl 4 neu 6(c) o Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007; Erthygl 4(c) o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Cludo) (Yr Alban) 2006;
- Erthyglau 5, 6, 7 ac 8 o Orchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990;
- Deddf Amaethyddol (Darpariaethau Amrywiol) 1968;
- Deddf Diogelu Anifeiliaid 1911 (fel y'i diwygiwyd); Deddf Diogelu Anifeiliaid (Yr Alban) 1912;
- Deddf Lles Anifeiliaid 2006; Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006

A oes gan unrhyw un a fydd yn ymwneud â chludo anifeiliaid o dan y Dystysgrif Awdurdodi hon, mewn unrhyw amgylchiad, o dan y deddfwriaeth(au) uchod:

- gofnod o gollfarn neu Rybudd Syml y Swyddfa Gartref o unrhyw drosedd sy'n ymwneud â lles anifeiliaid yn y 3 blynedd cyn dyddiad y cais hwn; neu
- gorchymyn gwahardd neu anghymwyso cyfredol

Nodwch\*:

Yes

No

Os 'OES', rhaid i chi gwblhau'r blwch isod (atodwch ddalenni ar wahân os oes angen):

Enw	<input type="text"/>	Swydd	<input type="text"/>
Dyddiad(au) y torcyfraith	<input type="text"/>		
Y ddeddfwriaeth a dorrwyd	<input type="text"/>		
Y gosb a bennwyd, yn cynnwys unrhyw orchymyn cyfyngu/anghymwyso gyda manylion am ei dyddiad dechrau/gorffen	<input type="text"/>		

Dyddiad y gollfarn/dyddiad rhoi  
Rhybudd Syml y Swyddfa Gartref

Enw'r llys (os oedd collfarn)

Pwy gymerodd y camau gorfodi (e.e.  
yr heddlu, awdurdod lleol, RSPCA)

#### Noder:

Gellir ystyried tystiolaeth o'r camau a gymerwyd i osgoi ailgyflawni'r trosedd(au), yn ogystal â difrifoldeb y trosedd(au) ac unrhyw dorcyfraith sydd heb arwain at gollfarn neu Rybuddion Syml y Swyddfa Gartref (megis rhybuddion ysgrifenedig a llafar ac unrhyw Hysbysiadau Statudol a gyflwynwyd).

### Rhan 3 – Datganiad a Llofnod – Mae'r adran hon yn orfodol

Ticiwch 'Cywir' neu 'Anghywir' i'r datganiadau canlynol \*:

Gellir gweld copi o Reoliad y Cyngor (CE) Rhif 1/2005 ar y ddolen ganlynol:

<http://faolex.fao.org/docs/pdf/eur69655.pdf>

	GOFYNION	CYWIR	ANGHYWIR	N/A
1	Rydych chi / eich cwmni wedi'i leoli yn y DU.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
2	Eich unig Dystysgrif Awdurdodi Cludwyr yw hon (h.y. nad ydych yn meddu ar unrhyw Dystysgrif Awdurdodi arall a roddwyd naill ai yn y DU neu gan yr awdurdod cymwys mewn aelod-wladwriaeth arall).	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
3	Mae gan eich busnes ddigon o bersonél i'ch galluogi chi / eich cwmni i gydymffurfio â Rheoliad 1/2005 y Cyngor.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
4	Mae'r holl yrwyr a chynorthwyr sy'n gyfrifol am gludo anifeiliaid <sup>1</sup> ar ran eich busnes yn meddu ar Dystysgrifau Cymhwysedd fel sy'n ofynnol gan Erthygl 6(5) ac Erthygl 17(2) o'r Rheoliad.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
5	Ar wahân i'r gyrwyr a'r cynorthwyr y cyfeirir atynt yng Nghwestiwn 4, mae staff arall sy'n cael eu hymddiried i drin anifeiliaid yn unol â'r Rheoliad ar eich rhan chi <sup>2</sup> wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol i'w galluogi i gydymffurfio â gofynion y Rheoliad.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
6	Mae digon o offer ar gael i chi i allu cydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliad e.e. cyfleusterau llwytho a dadlwytho, cyfleusterau bwydo ac yfed, digon o olau addas.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
7	Rydych chi / eich staff yn cael gweld cyfarwyddiadau neu weithdrefnau gweithredu cyfoes (yn cynnwys Canllawiau Arferion Da) i alluogi cydymffurfiaeth â darpariaethau'r Rheoliad.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
8	Os ydych yn defnyddio personél ar log neu dan gontract i gludo da byw, rydych yn sicrhau eu bod wedi'u hawdurdodi fel cludwyr yn eu rhinwedd a'u bod yn meddu ar Dystysgrif Awdurdodi a roddwyd o dan delerau Erthygl 10 (teithiau byr) neu Erthygl 11 (teithiau hir) o'r Rheoliad.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
9	Os ydych wedi ateb 'CYWIR' i Gwestiwn 8, rydych hefyd yn sicrhau bod y gyrwyr ar log/dan gontract yn meddu ar Dystysgrifau Cymhwysedd fel sy'n ofynnol gan Erthygl 6(5) ac Erthygl 17(2).	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10	Mae gennych chi'r cyfleusterau angenrheidiol a'r personél hyfforddedig i sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu cludo'n <u>ddiogel</u> mewn achos pan fydd cerbyd yn torri i lawr.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Ni phrosesir eich cais oni chwblheir yr holl gwestiynau uchod.

<sup>1</sup> Ceffylau dof neu anifeiliaid dof o'r rhywogaeth gwartheg, defaid, geifr neu foch.

<sup>2</sup> Personél a gyflogwyd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (e.e. personél contract) gennych chi.

## Datganaf:

- A. Rwyf yn gyfrifol am ddilysrwydd yr holl wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon, yn cynnwys gwybodaeth am bobl eraill
- B. Fel yr unigolyn sy'n cwblhau'r ffurflen hon rwyf wedi cael caniatâd yr unigolyn/unigolion a enwir ar y ffurflen hon ac maent yn ymwybodol o'r ffordd y caiff eu data personol ei brosesu ac at ba ddiben(ion) y gwneir hynny
- C. Os byddaf yn rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ac yn gwneud hynny'n fwiadol neu'n ddi-hid, yna deallaf y gellir gwrthod y cais hwn, neu os caniateir hynny, y gellir ei ddiddymu a gellir fy erlyn
- CH. Byddaf yn cludo anifeiliaid yn unol â Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo (y Rheoliad) unwaith y rhoddir Tystysgrif Awdurdodi
- D. Deallaf ei bod yn drosedd i gludo unrhyw anifeiliaid y mae angen Tystysgrif Awdurdodi Cludwyr Anifeiliaid arnynt o dan y Rheoliad cyn y rhoddir Tystysgrif Awdurdodi gan APHA
- DD. Byddaf yn hysbysu'r swyddfa a roddodd y Dystysgrif Awdurdodi o unrhyw newidiadau yn y manylion a ddarparwyd gennyf ar y ffurflen hon o fewn 15 diwrnod i'r newidiadau hynny a deallaf os bydd unrhyw wybodaeth ar fy Nhystysgrif Awdurdodi yn newid, diddymir fy Nhystysgrif Awdurdodi a bydd angen rhoi Tystysgrif newydd
- E. Mae gennyf staff, offer a gweithdrefnau digonol a phriodol i gydymffurfio â'r Rheoliad a byddaf ond yn ymddiried yr anifeiliaid a gludir wrth gyflawni fy musnes i bobl sydd wedi dangos eu bod yn gymwys yn unol â'r Rheoliad
- F. Rwyf yn cadarnhau, os byddaf yn gweithredu neu'n hurio cerbydau a ddefnyddir i gludo anifeiliaid dof fferm neu geffylau nas cofrestrwyd ar deithiau domestig yn unig sy'n para dros 12 awr a / neu ar deithiau allforio sy'n para dros 8 awr, bod y cerbydau yn cynnwys system llywio, fel y nodir o dan Atodiad 1, Pennod VI, 4.1 o'r Rheoliad
- FF. Deallaf fod yn rhaid i bob un o'm/ein gyrwyr a chynorthwyrwyr feddu ar gynlluniau wrth gefn effeithiol rhag ofn yr amherir ar deithiau oherwydd salwch neu anaf i unrhyw anifail. I'r perwyl hwn, rhoddir cyfarwyddiadau i bob gyrrwr/cynorthwydd; (i) ar ble y dylid mynd ag anifeiliaid os amherir ar deithiau neu os cânt eu cwtogi am unrhyw reswm, yn cynnwys y cerbyd yn torri i lawr, cau ffyrdd oherwydd damweiniau, canslo taith fferi ac ati; (ii) bod digon o fwyd a dŵr priodol ar gael ar gyfer y daith arfaethedig ac ar gyfer unrhyw oedi; (iii) ar ble i geisio gofal milfeddygol os yw unrhyw anifeiliaid yn sâl neu wedi'u hanafu; a (iv) bod gyrwyr a chynorthwyrwyr yn rhoi'r cynlluniau wrth gefn hyn i unrhyw Arolygwr Awdurdod Cymwys ar gais
- G. Byddaf yn sicrhau y caiff copi o'm Tystysgrif Awdurdodi ei gario yn y cerbyd(au) ar bob adeg pan fyddaf yn cludo anifeiliaid a bydd y Dystysgrif Awdurdodi ar gael i unrhyw Swyddog Gorfodi yn y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd os gofynnir amdani.

Llofnod yr ymgeisydd*	<input type="text"/>	Dyddiad*	<input type="text"/>
Teitl (Mr, Mrs, Miss ac ati)*	<input type="text"/>		
Enw(au) cyntaf*	<input type="text"/>		
Cyfenw'r ymgeisydd*	<input type="text"/>		
Eich dyddiad geni <input type="checkbox"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Nodwch eich swydd yn y cwmni (os yw'n berthnasol)\*

Unig fasnachwr	<input type="checkbox"/>	Partner	<input type="checkbox"/>	Cyfarwyddwr	<input type="checkbox"/>	Ysgrifennydd y Cwmni	<input type="checkbox"/>
Arall	<input type="checkbox"/>	(nodwch beth)	<input type="text"/>				

Anfonwch y ffurflen hon i: Welfare in Transport Team  
Animal and Plant Health Agency  
Centre for International Trade - Carlisle  
Eden Bridge House  
Lowther Street  
Carlisle  
CA3 8DX  
E-bost: [wit@apha.gsi.gov.uk](mailto:wit@apha.gsi.gov.uk)

## DIOGELU DATA

I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk) a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Personol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

**Dylech gadw copi o'r ddogfen hon ar gyfer eich cofnodion, ac i'w chyflwyno i swyddogion gorfodi os na phroseswyd eich cais eto.**

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.